

Archwilio Pam **Symbolau Ffydd**



Fersiwn Estynedig

Archwilio Pam

Symbolau Ffydd

Leslie J Francis a Tania ap Siôn
Darluniwyd gan Phillip Vernon



Bear Lands Publishing

Aled a Siân

Mae Aled a Siân wrth eu bodd yn archwilio'r mannau lle maen nhw'n byw a'r mannau y maen nhw'n mynd i ymweld â nhw. Maen nhw'n mwynhau chwarae 'Dw i'n gweld â'm llygad bach i' er mwyn eu helpu i ddod i adnabod y mannau hyn yn well. Yn y gyfres *Archwilio Pam*, mae Aled a Siân yn chwilfrydig ac eisiau gwybod pam fod rhai o'r pethau o'u cwrpas yn bwysig i'w ffrindiau Cristnogol, Iddewig a Mwslimaidd.

Mae'r gyfres yn cymryd arwyddocâd cymdeithasol crefydd o ddifrif, ac mae'n seiliedig ar ymchwil helaeth i sut mae plant yn dysgu amdany'n nhw eu hunain, am bobl eraill, ac am y byd maen nhw'n byw ynddo.

I ategu'r gyfres hon o lyfrau stori, mae amrywiaeth eang o adnoddau ar gyfer plant ac athrawon, y gellir eu llwytho i lawr am ddim, ac maen nhw ar gael ar hwb.wales.gov.uk/Adnoddau a st-marys-centre.org.uk

Mae'r llyfrau stori a'r gweithgareddau wedi'u hanelu at blant 5 - 7 mlwydd oed, ond mae'r adnoddau sy'n bosib eu llwytho i lawr yn gwneud y gyfres yn berthnasol i blant iau a phlant hŷn hefyd.

Cyhoeddwyd gan Bear Lands Publishing, Canolfan y Santes Fair, Llys Onnen, Abergwyngregyn, Gwynedd, LL33 0LD, Wales.

Hawlfraint © Tania ap Siôn a Leslie J Francis (testun), Phillip Vernon (darluniau).

Mae Tania ap Siôn, Leslie J Francis, a Phillip Vernon wedi mynnu eu hawl o dan Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988, i gael eu nodi fel awduron y gwaith hwn.

Cyfieithwyd gan Nant Roberts.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir i unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei atgynhyrchu, na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy, na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng, electronig, electrostatig, tâp magnetig, mecanyddol, ffotogopïo, recordio, nac fel arall, heb ganiatâd llawn Bear Lands Publishing a deiliaid yr Hawlfraint.


Cyhoeddwyd gyntaf 2016.

Noddir gan Lywodraeth Cymru.

Teitlau'r gyfres *Archwilio Pam* yw:

Bara
Croes
Goleuni
Menora
Fêl
Dŵr
Symbolau Ffydd





Mae Aled a Siân wrth eu bodd yn archwilio'r ardal maen nhw'n byw ynddi a'r lleoedd maen nhw'n ymweld â nhw. Maen nhw'n mwynhau chwarae 'Dw i'n gweld â'm llygad bach I', er mwyn eu helpu

i ddod i adnabod y lleoedd hyn yn well. Heddiw, maen nhw'n ymweld â'r Wyl Ffydd yn Neuadd y Dref, ac maen nhw'n mynd i geisio gweld sawl un o'u ffrindiau fydd yn gwneud symbolau o'u ffydd.



Cerddodd Aled a Siân i fynyr grisiau i adeilad mawr Neuadd y Dref gan ddarllen yr arwydd mawr 'Croeso i'r Wyl Ffydd'. Fe aethon nhw i mewn i'r

ystafell gyfarfod fawr. Yno, fe welon nhw luniau o'r synagog, y menora a sgrôl y Torah. Fe welon nhw lun o'r rabi.




Yn yr ystafell gyfarfod fawr, fe welon nhw luniau o'r mosg, y silffoedd yn llawn sandalau ac esgidiau, a'r rhes hir o dapiau dŵr yn yr ystafell ymolchi. Fe

welon nhw luniau o'r imam. Yn yr ystafell gyfarfod fawr, fe welon nhw luniau o'r eglwys, yr allor, y groes, a'r dorth o fara. Fe welon nhw lun o'r ficer.



Y tu mewn i Neuadd y Dref, mae Aled a Siân yn gweld eu ffrindiau Peter a Mary. Roedden nhw yno gyda'u mam. Mam Peter a Mary oedd wedi mynd â nhw i gyd i'r eglwys leol. Yno, roedden nhw wedi

gweld y groes ar yr allor. Yno, roedden nhw wedi gweld y bara oedd wedi'i baratoi ar gyfer y gwasanaeth dydd Sul. Roedd Aled a Siân wrth eu bodd yn gweld eu ffrindiau Peter a Mary.



Roedd mam Peter a Mary yn gweithio yn y gegin, yn dangos i bobl sut i wneud bara. Roedd hi wedi dod â bagiau o flawd a chlorian fawr i bwysu'r

blawd. Roedd hi wedi dod â thoes a byrddau pren mawr i dylino'r toes arnyn nhw. Roedd hi wedi dod â jygiau i fesur y dŵr.




Fe wnaeth Aled a Siân helpu mam Peter a Mary i bwyso'r blawd ac i fesur y dŵr. Fe wnaethon nhw helpu mam Peter a Mary i gymryd y burum a'i

dyfino gyda'r toes nes ei fod yn barod i'w grasu. Fe wnaethon nhw helpu mam Peter a Mary i roi'r toes yn y popty.



Edrychodd Aled a Siân o gwmpas y gegin unwaith eto. Fe wnaethon nhw edrych ar y glorian a'r bawd. Fe wnaethon nhw edrych ar y jygiau a'r dŵr. Fe wnaethon nhw edrych ar y byrddau pren

a'r toes. Fe wnaethon nhw edrych ar y popty lle roedd y bara'n crasu. "Rydyn ni'n gwybod pam mae bara mor bwysig i Gristnogion!" meddai Aled a Siân gyda'i gilydd.



Roedd Peter a Mary wedi gosod mainc yn y gweithdy i wneud croesau o ddarnau o bren. Roedden nhw wedi dod â phob math o ddarnau o bren, o wahanol siâp a maint. Roedden nhw wedi dod â

llifiau i dorri'r pren. Roedden nhw wedi dod â phacedi o hoelion i ddal y darnau o bren gyda'i gilydd.




Fe wnaeth Aled a Siân helpu Peter a Mary i ddewis darnau o bren o'r maint iawn. Fe wnaethon nhw helpu Peter a Mary i dorri'r darnau o bren i'r siâp iawn. Fe wnaethon nhw helpu Peter a Mary i

wneud croesau o'r pren. "Rydyn ni'n gwybod pam mae'r groes mor bwysig i Gristnogion!" meddai Aled a Siân gyda'i gilydd.



Y tu mewn i Neuadd y Dref, mae Aled a Siân yn gweld eu ffrindiau Nathan a Rachel. Roedden nhw yno gyda'u mam. Mam Nathan a Rachel oedd wedi mynd â nhw i gyd i'r synagog leol. Yno,

roedden nhw wedi gweld y menora yn y ffenestr liw. Yno, roedden nhw wedi gweld Arch y Torah, a'r lamp wedi'i goleuo. Roedd Aled a Siân wrth eu bodd yn gweld eu ffrindiau Nathan a Rachel.



Roedd mam Nathan a Rachel yn gweithio yn y gegin, yn dangos i bobl sut i wneud canhwylau. Roedd hi wedi dod â slabiau o wêr cannyll a llifynnau i wneud canhwylau gwahanol liw.

Roedd hi wedi dod â mowldiau i wneud canhwylau gwahanol siâp. Roedd hi wedi dod â wiciau i wneud i'r canhwylau oleuo.



Gwylodd Aled a Siân fam Nathan a Rachel yn ymdoddi'r gwêr ar ben y stôf. Fe wnaethon nhw sefyll yn ôl rhag i'r gwêr poeth dasgu drostyn nhw. Gwylodd Aled a Siân fam Nathan a Rachel yn

gosod y wic yng nghanol y mowld ac yn arllwys y gwêr poeth o'i gwmpas yn ofalus. Roedd y ddau yn sefyll yn ddigon pell yn ôl o hyd.



Edrychodd Aled a Siân o gwmpas y gegin unwaith eto. Fe wnaethon nhw edrych ar y slabiau o wêr kannwyll a'r llifynnau gwahanol liw. Fe wnaethon nhw edrych ar y mowldiau i wneud canhwyllau

gwahanol siâp. "Rydyn ni'n gwybod pam mae goleuni mor bwysig i lldewon!" meddai Aled a Siân gyda'i gilydd.



Roedd Nathan a Rachel wedi gosod mainc yn y gweithdy i wneud menorâu o ddarnau mawr o gerdyn. Roedden nhw wedi dod â phob math o ddarnau o gerdyn, o wahanol siâp a maint.

Roedden nhw wedi dod â sisyrnau i dorri'r cerdyn. Roedden nhw wedi dod â glud i ludio'r darnau o gerdyn gyda'i gilydd.



Fe wnaeth Aled a Siân helpu Nathan a Rachel i ddewis darnau o gerdyn o'r maint iawn. Fe wnaethon nhw helpu Nathan a Rachel i dorri'r darnau o gerdyn i'r siâp iawn. Fe wnaethon nhw

helpu Nathan a Rachel i wneud menorâu o'r cerdyn. "Rydyn ni'n gwybod pam mae'r menora mor bwysig i Iddewon!" meddai Aled a Siân gyda'i gilydd.



Y tu mewn i Neuadd y Dref, mae Aled a Siân yn gweld eu ffrindiau Ahmed a Salma. Maen nhw yno gyda'u tad. Tad Ahmed a Salma oedd wedi mynd â nhw i gyd i'r mosg lleol. Yno, roedden nhw wedi

gweld y silffoedd llawn sandalau ac esgidiau. Yno, roedden nhw wedi gweld y rhes hir o dapiau dŵr yn yr ystafell ymolchi. Roedd Aled a Siân wrth eu bodd yn gweld eu ffrindiau Ahmed a Salma.




Roedd tad Ahmed a Salma yn gweithio yn y gegin, yn dangos i bobl sut mae dŵr yn cael ei ddefnyddio. Roedd e wedi dod â jygiau arbennig i gario'r dŵr. Roedd e wedi dod â bowlenni

arbennig i'w llenwi â'r dŵr. Roedd e wedi dod â standiau arbennig i ddal y bowlenni. Roedd e wedi dod â thywelion glân arbennig.



Fe wnaeth Aled a Siân helpu tad Ahmed a Salma i lenwi'r jygiau arbennig â dŵr. Fe wnaethon nhw helpu tad Ahmed a Salma i gario'r dŵr i lenwi'r bowlenni. Fe wnaethon nhw arllwys y dŵr o'r

jygiau i'r bowlenni. Fe wnaethon nhw ymuno â thad Ahmed a Salma i wahodd pobl i ddod i ymolchi yn y dŵr glân pur.



Edrychodd Aled a Siân o gwmpas y gegin unwaith eto. Fe wnaethon nhw edrych ar y tapiau lle roedden nhw'n cael y dŵr. Fe wnaethon nhw edrych ar y jygiau roedden nhw'n eu llenwi â dŵr

o'r tapiau. Fe wnaethon nhw edrych ar y bowlenni roedden nhw'n eu llenwi â dŵr o'r jygiau. "Rydyn ni'n gwybod pam mae dŵr mor bwysig i Fwslimiaid!" meddai Aled a Siân gyda'i gilydd.



Roedd Ahmed a Salma wedi gosod mainc yn y gweithdy i wneud feliau o ddarnau o ddefnydd. Roedden nhw wedi dod â phob math o ddarnau o ddefnydd, o wahanol faint a lliw. Roedden nhw

wedi dod â sisyrnau i dorri'r defnydd. Roedden nhw wedi dod â nodwyddau ac edau i wnïo'r defnydd a gwneud feliau.



Fe wnaeth Aled a Siân helpu Ahmed a Salma i ddewis darnau o ddefnydd o'r maint iawn a'r lliw iawn. Fe wnaethon nhw helpu Ahmed a Salma i dorri'r darnau o ddefnydd i'r siâp iawn. Fe wnaethon

nhw helpu Ahmed a Salma i wneud feliau o'r defnydd. "Rydyn ni'n gwybod pam mae'r fêl mor bwysig i Fwslimiaid!" meddai Aled a Siân gyda'i gilydd.



Wrth i'r diwrnod ddod i ben, daeth Peter a Mary â'u croesau, a daeth eu mam â'r bara. Daeth Nathan a Rachel â'u menorâu, a daeth eu mam â'r canhwyllau. Daeth Ahmed a Salma â'u feliau,

a daeth eu tad â'r dŵr. Fe wnaethon nhw osod y symbolau i gyd yn ymyl y lluniau yn yr ystafell gyfarfod fawr, a dathlu eu ffydd gyda'i gilydd.



Mae Aled a Siân yn chwarae 'Dw i'n gweld â'm llygad bach i', a heddiw maen nhw'n chwilio am 'symbolau ffydd'. Maen nhw'n ymweld â Gŵyl Ffydd yn neuadd y dref ac yn dod o hyd i lawer o symbolau ffydd yno. Wrth iddyn nhw gymryd rhan yng ngweithgareddau cyffrous yr Ŵyl, maen nhw'n cofio pam fod pob un o'r symbolau hyn yn bwysig i'w ffrindiau.



Bear Lands Publishing